

## **Polisi Gwirfoddoli Gwasanaeth Archifau Gwynedd**

### Pwrpas y Polisi

Croesawir gwirfoddolwyr i ymgymeryd â rhai agweddau o waith Gwasanaeth Archifau Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn ymrwmo i ddatblygu, annog a chefnogi gwaith gwirfoddol ble a phryd mae hynny'n addas. Drwy wneud hyn yr ydym yn cydnabod mae bwriad gwaith gwirfoddol yw i gyfrannu at waith y Gwasanaeth ac nid i ymgymeryd a dyletswyddau staff cyflogedig.

### Y Gwirfoddolwr

Gofynnir i wirfoddolwyr gwblhau ffurflen gais ble bydd angen dau eirida . Yn ogystal gofynnir i chwi ymweld â'r Archifyd i gael cyfweiliad ble bydd modd adnabod sgiliau a chryfderau y gwirfoddolwr ac felly adnabod gwaith a fydd yn addas.

Mae gan y Gwasanaeth hawl i beidio derbyn gwirfoddolwr neu i ddod a'r trefniant i ben.

Disgwylir i'r gwirfoddolwr dddilyn rheolau a pholisiau Cyngor Gwynedd

Ni dderbynnir gwirfoddolwr heb ganiatad terfynol y Prif Archifydd.

### Y Gwaith

Derbynnir gwirfoddolwyr i ymgymeryd â thasgau y Gwasanaeth Archifau pan fo hynny'n addas.

Apwyntir aelod o staff i osod a goruchwylio gwaith y gwirfoddolwr.

Nodir y tasgau a'r hyn a ddisgwylir i'w gyflawni erbyn diwedd y cyfnod gwirfoddol.

Trefnir unrhyw hyfforddiant cyn ymgymryd a'r gwaith.

Nodir y cyfnod gwirfoddol yn glir fel bod y gwirfoddolwr a'r Gwasanaeth yn ymwybodol ac yn gytun ar yr hyn a ddisgwylir yn ystod y cyfnod gwirfoddol.

Disgwylir i'r gwirfoddolwr gadw at yr amserlen a osodir ac hysbysu'r Gwasanaeth o unrhyw newidiadau.

Perthynir unrhyw waith a greuir yn ystod y cyfnod gwirfoddoli i'r Gwasanaeth Archifau.

Gweler fod nifer o gyfleon o dderbyn gwirfoddolwyr i ymgymeryd â thasgau archifyddol, ond mae'n hanfodol fod y Gwasanaeth a'r gwirfoddolwr yn elwa o'r trefniant. Mae'n hanfodol fod y Gwasanaeth yn parchu'r gwirfoddolwr a'r gwirfoddolwr yn deallt anghenion y Gwasanaeth, staff a'r defnyddwyr. Gall gwirfoddolwyr gyfrannu'n hael i waith y Gwasanaeth Archifua a gall y gwirfoddolwr elwa drwy ddatblygu sgiliau, hyder a diddordebau.

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Ann Rhydderch (01286) 679 087/093  
AnnRhydderch@gwynedd.gov.uk